

NICOLAS, DAFYDD (1705? - 1774), bardd

Enw: Dafydd Nicolas
Dyddiad geni: 1705?
Dyddiad marw: 1774
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Griffith John Williams

Tybiai **T. C. Evans** ('Cadrawd') mai ef oedd y gŵr o'r enw hwn a aned yn Llangynwyd yn 1705. Yr oedd yr hen bobl, meddai, yn sôn amdano fel un a fu'n cadw ysgol yn y plwyf. Rhestrai '**lolo Morganwg**' ef ymhlith y llenorion a oedd wedi eu haddysgu eu hunain. Bu'n byw wedi hynny yn Ystrad Dyfodwg, ac efallai yng Nglyncorrwg ac yng Nghwm-gwrach. Y mae'n gwbl bosibl mai ysgolfeistr crwydrad ydoedd yn y cyfnod hwn. Tua chanol y ganrif (neu efallai cyn hynny) enillodd sylw **Williamsiaid** Aberpergwm, a'r plas hwnnw fu ei gartref hyd ei farw. Mynnid yn y ganrif ddiwethaf mai fel ' bardd teulu ' y cedwid ef yno, yr olaf, meddid, yng Nghymru, ond dywaid **William Davies** o'r Cringell, yn 1795-6, mai ' private tutor ' ydoedd. Enillodd enw mawr iddo ei hun fel ysgolhaig clasurol, a chyfieithodd ran o'r *lliad* i'r Gymraeg - o'r hyn lleiaf, dyna'r traddodiad yng Nglyn Nedd. Mynnai '**lolo Morganwg**' yntau ei fod yn medru Lladin, Groeg, a Ffrangeg, ac mai ef oedd y bardd cyfoethocaf ei awen ymhlith ei holl gydnabod. Er mai ychydig o sylw a roes i'r canu caeth, y mae'n eglur ei fod yn ffigur gweddol bwysig yn y deffroad llenyddol ym Morgannwg. Ei gerddi rhydd sy'n rhoddi ei le iddo fel bardd. Priodolir dwy gân iddo yn llyfr **Maria Jane Williams**, *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg*, 1844, a cheir amryw eraill yn llawysgrifau '**lolo**.' cerddi i'w canu ar geinciau hen a diweddar. Yr oedd ganddo ddawn arbennig yn y cyfeiriad hwn, ac nid amhriodol fyddai ei alw yn '**Geiriog**' y 18fed ganrif. Gwelir yma fardd telynegol, a glywai fiwsig geiriau, mydryddwr a ymhyfrydai yn hoywder ei fydrau. Ef, yn ddiamau, ydoedd bardd gorau Morgannwg yn y 18fed ganrif cyn dyddiau '**lolo**.' Dywedir yn gyffredin iddo yrru llythyr at **Edward Evan** yn trafod techneg y canu rhydd, ond y mae'n weddol sicr mai '**lolo**' a'i lluniodd. Fe'i claddwyd yn Aberpergwm, yn 1774.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

T. C. Evans, *History of Llangynwyd Parish, with Illustrations* (Llanelly 1887), 186-8

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 1925, 546-53

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 1948, 241-3, 290-300

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Dafydd Nicolas](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [9527389](#)

Wikidata: [Q13127766](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.